



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

T: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Your ref:
Our ref:
Date: 7 March 2023

Annwyl Ymgynghorai

Ymgynghoriad ar ofynion cofrestru arfaethedig ar gyfer pob ceidwad adar ym Mhrydain Fawr

Rydym yn ysgrifennu i'ch gwahodd i fynegi barn am gynigion y llywodraeth i estyn y gofynion gorfodol presennol i gofrestru dofednod fel eu bod yn berthnasol i bob ceidwad adar neu i bobl sy'n cadw 10 neu fwy o adar mewn unrhyw safle unigol.

Rydym hefyd yn ceisio barn am y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i geidwaid adar fynd ati'n flynyddol i ddiweddarau eu cofnodion ar y gofrestr.

Gellir dod o hyd i'r dogfennau isod ar GOV.UK:

<https://consult.defra.gov.uk/poultry-register/all-birds-registration2023-1>

- Y Ddogfen Ymgynghori
- Hysbysiad Preifatrwydd

Byddem yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau am yr opsiynau a amlinellir yn yr ymgynghoriad

Ymatebion

I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, dylech lenwi'r holiadur ymgynghori a ddarperir drwy Citizen Space gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir (offeryn ymgynghori ar-lein yw Citizen Space).

Dylai ymatebion ddod i law erbyn **31 Mai 2023**.

Cyfrinachedd a diogelu data

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymgynghoriadau i'w weld wrth ochr yr ymgynghoriad.

Wrth fynd ati i gynllunio'r ddogfen ymgynghori a'r broses ymgynghori, cydymffurfiwyd â'r [Egwyddorion Ymgynghori](#) a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Pan fyddant yn ymateb, gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli a, phan fo hynny'n berthnasol, nodi â phwy arall y maent wedi ymgynghori wrth ddod i'w casgliadau.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth, sef, yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhwymedigaethau arnom, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr neu i'r cyhoedd o dan rai amgylchiadau. Os ydych am i'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, gofynnir ichi gofio bod yr Adran, sy'n awdurdod cyhoeddus, o dan rwymedigaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'i bod felly'n bosibl y bydd yn rhaid iddi ddatgelu'r holl wybodaeth neu rywfaent o'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. O ystyried hynny, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio wrthym pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y byddwn yn gallu cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fyddwn yn ystyried bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn rhwymo'r Adran yn hynny o beth.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch at y cyfeiriad isod, neu rhwch e-bost:

Consultation Coordinator, Defra

2nd Floor, Foss House, Kings Pool,

1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Or E-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Diolch i chi am eich cymorth yn y mater hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch efo ni. Os nad ydych yn gallu defnyddio Citizen Space, cysylltwch efo ni yma: poultry&captivebirdsregistrationconsultation@defra.gov.uk.

Yn gywir

Exotic and Endemic Disease Control, Defra, Ilywodraeth yr Alban a Ilywodraeth Cymru